Estyn

Rhagoriaeth i bawb ~ Excellence for all

Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru

Her Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

# Adroddiad ar

# Ysgol Gynradd St Julian

**Heol Beaufort**
**Casnewydd**
**NP19 7UB**

**Dyddiad yr arolygiad: 25 Ionawr 2011**

**gan**

**Stephen Dennett**

**O dan Gytundeb i**

**Estyn, Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg**

**a Hyfforddiant yng Nghymru**

Yn ystod pob arolygiad, nod arolygwyr yw ateb tri chwestiwn allweddol:

**Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau?**

**Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth?**

**Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth?**

Mae arolygwyr hefyd yn rhoi barn gyffredinol ar berfformiad presennol yr ysgol a'i rhagolygon gwella.

Yn yr arfarniadau hyn, mae'r arolygwyr yn defnyddio graddfa bedwar pwynt:

| **Barn** | **Yr hyn mae'r farn yn ei olygu** |
|---|---|
| **Rhagorol** | Llawer o gryfderau, gan gynnwys enghreifftiau arwyddocaol o arfer sy'n arwain y sector |
| **Da** | Llawer o gryfderau a dim meysydd pwysig sydd angen eu gwella'n sylweddol |
| **Digonol** | Mae cryfderau'n gorbwyso'r meysydd i'w gwella |
| **Anfoddhaol** | Mae'r meysydd pwysig i'w gwella yn gorbwyso'r cryfderau |

Lluniwyd yr adroddiad hwn yn unol ag Adran 28 Deddf Addysg 2005.

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor
Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW

neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.gov.uk

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan: www.estyn.gov.uk

**Ⓗ Argraffydd y Frenhines a Rheolwr Llyfrfa Ei Mawrhydi 2011: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod hawlfraint y deunydd rhagddywededig a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.**

## Cyd-destun

Mae Ysgol Gynradd St Julian yn ysgol gynradd gymunedol wedi ei lleoli yng ngogledd ddwyrain dinas Casnewydd. Agorwyd yr ysgol yn 2009, yn dilyn uno'r ysgolion babanod a chynradd, a sefydlwyd ym 1952. Hon yw'r arolygiad cyntaf ers i'r ddwy ysgol uno. Adeiladwyd meithrinfa bwrpasol ar dir yr ysgol yn y 1970au. Mae gan yr ysgol wynebwedd laswelltog, agored gyda maes chwarae eang a phedwar buarth chwarae. Mae dalgylch yr ysgol yn amrywiol yn gymdeithasol. Mae 493 o ddisgyblion wedi eu cofrestru yn yr ysgol. Yn ychwanegol, mae 40 o blant yn mynychu'r feithrinfa yn y boreau a 39 yn mynychu yn y prynhawniau. Mae gan tua 24% yr hawl i brydau ysgol am ddim. Daw mwyafrif y disgyblion o deuluoedd nad ydynt o dan anfantais gymdeithasol nac ychwaith yn freintiedig. Mae rhyw 7% o'r disgyblion yn dod o gefndiroedd ethnig lleiafrifol ac mae 3.5% yn siarad Saesneg fel ail iaith. Nid yw'r Gymraeg yn iaith gyntaf i unrhyw un o'r disgyblion. Mae'r ysgol wedi dynodi fod gan 27% o'i disgyblion anghenion addysgol arbennig (AAA). Mae pedwar disgybl yn dal datganiad ar gyfer AAA. Dyfarnwyd Marc Ansawdd yr Asiantaeth Sgiliau Sylfaenol ar bedwar achlysur, trydydd lefel gwobr Ysgolion Iach, Baner Werdd Eco-Sgolion ddwywaith a hefyd cafodd ei dewis fel ysgol beilot ar gyfer Pecyn Addysg y Cwpan Ryder yn ogystal â'i lansio.

Mae cyllideb ysgol unigol fesul disgybl ar gyfer Ysgol Gynradd St Julian, sef £2,889, yn cymharu gydag uchafswm o £6,996 ac isafswm o £2,612 ar gyfer ysgolion cynradd yng Nghasnewydd. Mae gan yr ysgol y gyllideb 46$^{fed}$ uchaf fesul disgybl allan o'r 48 o ysgolion yng Nghasnewydd.

## Crynodeb

| | |
|---|---|
| **Perfformiad presennol yr ysgol** | **Da** |
| **Rhagolygon gwella'r ysgol** | **Rhagorol** |

### Perfformiad presennol

Mae'r ysgol yn darparu addysg dda ar gyfer ei disgyblion oherwydd:

- Mae safonau cyflawniad yn dda yn y ddau gyfnod allweddol.
- Mae lles disgyblion yn dda a'u hymddygiad yn rhagorol.
- Mae'r ddarpariaeth yn dda a'r addysgu yn effeithiol, gydag amryw o gryfderau nodedig.
- Darperir nifer o brofiadau dysgu amrywiol ar gyfer y disgyblion.
- Caiff yr ysgol ei harwain a'i rheoli'n dda ac mae'n darparu gwerth da iawn am arian.
- Er bod yr arweinyddiaeth a'r rheolaeth yn rhagorol, nid yw'r holl o'r arferion sydd yn arwain y sector eto wedi eu trosglwyddo i gyflawniad rhagorol.

### Rhagolygon gwella

Mae gan yr ysgol rhagolygon rhagorol ar gyfer gwelliant oherwydd:

- Mae gan yr ysgol hanes rhagorol o ran rheoli newid, fel yr arddangoswyd gan y broses uno esmwyth iawn.
- Mae'r ysgol wedi mynd i'r afael yn gyson â dynodi gwendidau yn effeithiol iawn ac yn gallu dangos fod y camau mae wedi cymryd wedi arwain at welliannau mesuradwy a pharhaus mewn safonau.
- Mae'r trefniadau ar gyfer hunan arfarnu yn rhagorol ac yn arwain at gynlluniau datblygu ysgol sydd wedi eu llunio'n dda.
- Mae'r ysgol yn ymgynghori'n eang gyda disgyblion, rhieni a'r gymuned er mwyn sicrhau fod ei chynlluniau ar gyfer gwelliant yn seiliedig ar anghenion yr holl bartïon sydd â diddordeb.

## Argymhellion

Er mwyn gwella'r ddarpariaeth ymhellach a chodi safonau, dylai'r ysgol:

A1 gwella cysondeb ac ansawdd medrau llawysgrifen y disgyblion a chyflwyniad eu gwaith.

A2 darparu mwy o gyfleoedd i ddisgyblion ysgrifennu yn y Gymraeg a thrwy hynny codi safonau ymhellach.

A3 gwella presenoldeb disgyblion i'r lefelau da a welwyd yn flaenorol.

***Beth sy’n digwydd nesaf?***

Bydd yr ysgol yn cynhyrchu cynllun gweithredu i ddangos sut bydd yn mynd i'r afael ag argymhellion yr adroddiad ar yr arolygiad. Caiff y cynnydd a wneir wrth ymdrin â'r argymhellion eu cyhoeddi yn adroddiad blynyddol yr ysgol i'r rhieni. Gwahoddwyd yr ysgol i roi adroddiad ar yr arfer sydd yn arwain y sector a ddynodwyd yn yr adroddiad.

## Prif ganfyddiadau

| Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw’r deilliannau? | Da |
|---|---|

**Safonau: Da**

Mae perfformiad yr ysgol yn 2010, fel y'i mesurwyd gan asesiadau athrawon, yn dangos fod safonau yn gyffredinol yn uwch na'r cyfartaledd o'u cymharu gyda'r ffigurau cenedlaethol yn y ddau gyfnod allweddol. Mae hefyd yn perfformio'n dda o'i gymharu gydag ysgolion gyda nifer tebyg o ddisgyblion sydd â'r hawl i dderbyn prydau ysgol am ddim a rhai mewn sefyllfaoedd tebyg (ei 'theulu' o ysgolion). Oherwydd i'r ysgol gael ei huno yn 2009, nid yw'n bosibl mesur y tueddiadau dros y tair blynedd diwethaf, ond dengys tystiolaeth o'r ysgolion blaenorol fod safonau wedi bod yn gyson dda yn hanesyddol. Mae'r rhan fwyaf o grwpiau o ddisgyblion, gan gynnwys y rhai sydd ag anghenion dysgu ychwanegol, yn cyflawni'n dda. Mae achosion o dangyflawniad yn brin, ac mae'r ysgol wedi bod yn llwyddiannus wrth dargedu grwpiau o ddisgyblion, megis bechgyn a merched sydd â'r hawl i brydau ysgol am ddim, trwy raglenni ymyrraeth effeithiol. O ganlyniad, mae'r bylchau yn y cynnydd wedi lleihau. Mae plant yn cychwyn yn yr ysgol gydag amrediad eang o alluoedd. Mewn gwersi a thros amser, mae bron yr holl grwpiau o ddisgyblion yn gwneud o leiaf cynnydd da yn eu dysgu. Mae lleiafrif bychan iawn o ddisgyblion ond yn gwneud cynnydd boddhaol oherwydd bod ffactorau cymdeithasol, emosiynol ac ymddygiadol yn amharu ar eu gallu i ganolbwyntio. Mae bron yr holl ddisgyblion yn cymhwyso eu medrau cyfathrebu a rhifedd yn gadarn mewn amrediad eang o gyd-destunau. Mae safonau ysgrifennu wedi gwella, yn enwedig o ran y bechgyn, ond nid yw medrau llawysgrifen a chyflwyno lleiafrif o ddisgyblion wedi eu datblygu'n ddigonol. Mae medrau technoleg gwybodaeth a chyfathrebu disgyblion wedi eu datblygu'n dda iawn ac mae'r amrediad o gyfleoedd lle maent yn eu defnyddio yn

rhagorol. Mae cynnydd disgyblion mewn medrau yn yr iaith Gymraeg yn dda. Mae eu hymwybyddiaeth o'r dimensiwn Cymraeg mewn daearyddiaeth, hanes a diwylliant yn dda iawn. Er bod ganddynt fedrau siarad a gwrando da, boddhaol yw eu hysgrifennu yn y Gymraeg ac mae angen datblygu hyn ymhellach.

**Lles: Da**

Mae gan yr holl ddisgyblion agweddau cadarnhaol tuag at fwyta'n iach ac ymarfer. Maent yn cymryd rhan yn frwdfrydig mewn amrediad da o weithgareddau corfforol ac yn weithredol wrth gefnogi'r fenter 'Ysgolion Iach'. Dywed yr holl ddisgyblion eu bod yn teimlo'n ddiogel yn yr ysgol. Mae disgyblion yn mwynhau'r ysgol ac yn uchel eu cymhelliant. Mae ganddynt ymagweddau cadarnhaol tuag at ddysgu gan fwynhau'r amrediad eang o weithgareddau sydd ar gael iddynt. Dywedant eu bod yn teimlo y cânt eu gwerthfawrogi a'u cefnogi'n dda gan holl staff yr ysgol. Mae bron yr holl ddisgyblion yn gallu gweithio'n annibynnol ac yn derbyn cyfleoedd da i gyfrannu tuag at beth a sut maent yn dysgu. Mae ymddygiad disgyblion yn rhagorol, maent yn foesgar, yn gwrtais a pharchus. Mae hyn yn amlwg nid yn unig yn y gwersi, ond mewn gwasanaethau, yn ystod amseroedd chwarae a chinio, ac wrth iddynt symud yn drefnus o amgylch yr ysgol. Mae presenoldeb ychydig yn is na chyfartaledd cenedlaethol Cymru gyfan. Mae'r ysgol wedi dynodi'r mater ac wedi rhoi strategaethau mewn lle er mwyn gwella presenoldeb. Mae aelodau o'r cyngor ysgol a'r pwyllgorau eco yn rhan weithredol o wneud penderfyniadau ac yn cynrychioli safbwyntiau disgyblion yn dda. Mae disgyblion yn mwynhau'r amrywiaeth cyfoethog iawn o weithgareddau allgyrsiol a'r profiadau sydd ar gael iddynt. Mae eu dealltwriaeth o ddatblygiad cynaliadwy a dinasyddiaeth fyd eang yn datblygu'n dda.

| **Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw’r ddarpariaeth?** | **Da** |
|---|---|

**Profiadau dysgu: Da**

Mae'r ysgol yn darparu amrediad eang o brofiadau dysgu i ddisgyblion gyfoethogi eu haddysg. Mae cynllunio manwl ar gyfer gweithredu'r medrau allweddol. Rhoddwyd pwyslais ar fentrau newydd megis ymestyn medrau llythrennedd y disgyblion mwy galluog. Defnyddir technoleg gwybodaeth a chyfathrebu'n effeithiol iawn i gofnodi ac i gefnogi'r dysgu. Rhoddir cefnogaeth dda i ddisgyblion sydd ag anghenion dysgu ychwanegol. Mae'r ysgol wedi ystyried yn llwyddiannus sut i wneud profiadau dysgu'n fwy atyniadol i fechgyn. Mae'r ysgol yn darparu amrediad eang o glybiau a gweithgareddau allgyrsiol sydd yn cyfoethogi addysg y disgyblion. Caiff y rhain eu cysylltu'n gryf gyda'r ardal leol ac mae'r ddarpariaeth wedi ei gynllunio'n dda er mwyn datblygu ymwybyddiaeth a gwybodaeth disgyblion o'r iaith Gymraeg a diwylliant Cymru. Mae arddangosfeydd mewn dosbarthiadau yn cynnwys geirfa addas, sydd yn hyrwyddo gallu disgyblion i ddatblygu’r iaith Gymraeg ac ymagweddau cadarnhaol tuag at eu hetifeddiaeth Gymreig. O ganlyniad, mae disgyblion ym mhob dosbarth yn datblygu ymagweddau cadarnhaol tuag at y Gymraeg ac mae hyn yn hyrwyddo dwyieithrwydd yn effeithiol. Mae gan yr ysgol ddarpariaeth dda ar gyfer addysg ar gyfer datblygiad cynaliadwy a dinasyddiaeth fyd-eang, gan gynnwys gwneud defnydd da o gysylltiadau gyda'r gymuned leol a llefydd mewn rhannau arall o'r byd. Mae un dosbarth wedi datblygu cyswllt gydag ysgol yn Rwanda, rhoddodd hyn fewnwelediad i'r disgyblion o fywyd yno, a gaiff ei rhannu gyda'r ysgol. Mae'r ysgol wedi derbyn

gwobr Baner Werdd Eco-Sgolion am yr ail dro o ganlyniad i'w llwyddiant wrth hyrwyddo cynaladwyedd trwy gynlluniau megis ailgylchu, arbed ynni a byw yn iach.

**Addysgu: Da**

Mae holl aelodau'r staff yn hyrwyddo perthnasau gweithio da yn llwyddiannus ac mae cynllunio athrawon yn dynodi amcanion dysgu eglur. Mae gan athrawon ddealltwriaeth dda o'r cwricwlwm ac yn ffocysu gweithgareddau er mwyn herio disgyblion i gyflawniad uchel. Mae'r holl athrawon yn gwerthuso eu gwersi'n drylwyr fel sail ar gyfer cynllunio gwaith i'r dyfodol. Mae ffurf y cynllunio gwers yn cefnogi dynodi’r sgiliau i'w datblygu a gwerthuso cynnydd yn effeithiol. Defnyddia'r athrawon amrediad da o strategaethau addysgu ac mae'r rheolaeth o ymddygiad yn rhagorol. Mae disgyblion yn gosod targedau eu hunain ar gyfer gwelliant. Mae athrawon yn marcio gwaith disgyblion yn rheolaidd ac yn aml yn darparu adborth defnyddiol ar gyflawniad a ffyrdd i wella. Caiff cynnydd disgyblion ei hasesu'n rheolaidd a'i dracio'n ofalus gan athrawon ar lefel unigol a grŵp. Nodwedd sydd yn arwain y sector yw system 'LEMURS' yr ysgol, sydd yn targedu'r disgyblion mwy galluog a dawnus ar gyfer iaith a llythrennedd. Mae trefniadau asesu rhagorol yr ysgol yn eglur a thrwyadl. O ganlyniad, mae athrawon yn dynodi gallu a chynnydd yr holl ddisgyblion yn dda iawn ac yn gwneud defnydd da o dystiolaeth asesu er mwyn cynllunio a thargedu dysgu effeithiol. Mae adroddiadau i rieni yn eglur a llawn gwybodaeth. Dywed rhieni a gofalwyr y teimlant y cânt eu hysbysu'n dda iawn am gynnydd eu plant.

**Gofal, cymorth ac arweiniad: Da**

Mae'r ysgol yn gymuned drefnus a gofalgar lle mae pawb yn teimlo y cânt eu gwerthfawrogi. Mae gwasanaethau o ansawdd dda yn hyrwyddo datblygiad cymdeithasol, moesol, ysbrydol a diwylliannol disgyblion yn effeithiol. Dengys yr oedolion a'r disgyblion barch y naill at y llall. Teimla'r disgyblion y gallant droi at staff am gyngor ac arweiniad. Mae rheolau a gweithdrefnau yn gadarn ar draws yr ysgol. Caiff buddion byw yn iach eu hyrwyddo'n dda ar draws y cwricwlwm ac mewn amrediad o weithgareddau allgyrsiol. Mae gan yr ysgol fframwaith effeithiol ar gyfer addysg bersonol a chymdeithasol. Mae'n monitro lles disgyblion ac yn cynnig cefnogaeth yn ôl yr angen. Caiff yr holl weithdrefnau diogelwch eu diwallu'n llawn. Derbynia'r disgyblion gefnogaeth ac arweiniad priodol wrth iddynt ddechrau yn yr ysgol. Mae trefniadau pontio effeithiol ar gyfer disgyblion Blwyddyn 6 gyda'r ysgol gyfun leol. Mae'r ddarpariaeth ar gyfer disgyblion sydd ag anghenion dysgu ychwanegol yn dda. Mae gan yr ysgol systemau sydd wedi eu trefnu'n dda ar gyfer dynodi a chefnogi'r disgyblion hyn. Mae'r cynlluniau addysgol unigol yn gynhwysfawr ac yn gosod allan targedau addas ar gyfer gwelliant gaiff eu hadolygu'n rheolaidd. Mae rhaglen gefnogi'r ysgol 'Un Cam ar y Tro' yn arwain y sector ac wedi ei weithredu'n llwyddiannus mewn ysgolion eraill. Mae asiantaethau allanol a gwasanaethau arbenigol yn gweithio mewn partneriaeth effeithiol gyda'r ysgol gan sicrhau caiff holl anghenion y disgyblion eu diwallu'n dda.

**Yr amgylchedd dysgu: Da**

Mae gan yr ysgol ethos gynhwysol, lle gaiff pawb eu trin yn gyfartal a chyda pharch, beth bynnag eu rhyw, cefndir cymdeithasol, hil neu ffydd. O ganlyniad, mae gan ddisgyblion agweddau cadarnhaol tuag at amrywiaeth a chydraddoldeb. Mae gan ddisgyblion gyfleoedd cyfartal i gael mynediad i holl feysydd y cwricwlwm a

gweithgareddau. Caiff materion amrywiaeth ac amlddiwylliannol eu hyrwyddo'n dda yn y rhaglen addysg bersonol a chymdeithasol, addoli ar y cyd a gweithgareddau ehangach yr ysgol. Mae'r ysgol yn darparu amgylchedd diogel, gofalgar a chroesawgar i'r holl ddisgyblion. Caiff adeiladau'r ysgol a'r tir o amgylch eu cynnal a'u cadw'n dda ac maent yn ddigonol ar gyfer y nifer o ddisgyblion. Mae'r ystafelloedd dosbarth wedi eu haddurno gydag arddangosfeydd er mwyn darparu amgylchedd dysgu croesawgar, deniadol ac ysgogol. Mae'r adnoddau yn ddigonol ac o ansawdd dda ac wedi eu cydweddu'n dda i anghenion y disgyblion. Mae'r ardaloedd y tu allan wedi eu cynnal a'u cadw'n dda ac mae cynllunio da yn sicrhau datblygiad yr ardaloedd er mwyn cyfoethogi ddysgu'r disgyblion.

| | |
|---|---|
| **Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth?** | **Rhagorol** |

**Arweinyddiaeth: Rhagorol**

Mae'r pennaeth, gyda chefnogaeth effeithiol y dirprwy bennaeth a'r pennaeth cynorthwyol, yn darparu cyfeiriad addysgiadol eglur iawn. Mae gan arweinwyr yr ysgol hanes rhagorol o ran rheoli newid yn effeithiol. Cyflawnwyd uno'r ddwy ysgol yn llwyddiannus iawn gyda'r lleiafrif o amhariaeth i addysg y disgyblion. Mae cydberthnasau da ymhlith y staff a gweinyddiaeth sydd yn rhedeg yn esmwyth yn cael effaith gadarnhaol ar yr holl amgylchedd ddysgu. Mae staff yn rhannu gwerthoedd cyffredin ac mae ganddynt ymdeimlad gwirioneddol o bwrpas i'w gwaith. Mae'r uwch dîm rheoli a rheolwyr eraill yn sicrhau fod cysondeb yn y strwythurau a'r systemau ar draws yr ysgol. Mae hyn yn ei dro yn arwain at safonau da. Fel sydd wedi ei nodi eisoes yn yr adroddiad hwn, mae'r ysgol wedi cychwyn nifer o fentrau sydd yn arwain y sector, sydd yn eu tro yn dechrau cael effaith gadarnhaol ar y ddarpariaeth. Mae arweinwyr yn cyfathrebu uchelgais ysgogol i godi safonau ymhellach a gwella'r ddarpariaeth. Caiff llywodraethwyr eu hysbysu'n dda am berfformiad yr ysgol ac yn defnyddio'r wybodaeth yma i'w helpu i osod ei chyfeiriad strategol ac i fynd i'r afael ag unrhyw ardaloedd o danberfformio. Mae eu hamrediad eang o arbenigedd a phrofiad yn eu galluogi i gynnig cefnogaeth ardderchog i reolwyr uwch, ac i'w herio pan fod angen. Mae polisïau a mentrau, gan gynnwys rhai sydd yn diwallu'r blaenoriaethau lleol a chenedlaethol, yn cael eu gweithredu'n gyson, gan arwain at welliannau sylweddol yn y meysydd hyn.

**Gwella ansawdd: Rhagorol**

Mae gan yr ysgol weithdrefnau rhagorol ar gyfer hunan arfarnu. Mae gan yr uwch dîm rheoli ddarlun eglur iawn o berfformiad yr ysgol, ei chryfderau a'r meysydd ar gyfer datblygiad. Ceir amrediad eang o weithgareddau monitro trylwyr, gan gynnwys arsylwadau gwers manwl gywir. O ganlyniad i hyn, roedd yr adroddiad hunan arfarnu a gynhyrchwyd ar gyfer yr arolygiad yn ddogfen ddefnyddiol iawn. Gwneir defnydd effeithiol iawn o wybodaeth asesu er mwyn gosod targedau ar gyfer gwelliant ac i ddynodi grwpiau o ddisgyblion sydd yn tanberfformio. Er enghraifft, llynedd dynodwyd grŵp o fechgyn ym Mlwyddyn 4 fel rhai oedd yn tanberfformio mewn mathemateg a rhoddwyd rhaglen ymyrraeth mewn lle. Yn dilyn hyn, gwnaeth y disgyblion hyn gynnydd eithriadol mewn profion safonol gan gau'r bwlch rhwng bechgyn a merched yn y garfan hon. Caiff yr holl wybodaeth a gesglir ei ddefnyddio'n effeithiol i gynhyrchu cynllun datblygu ysgol manwl ac eglur. Mae'r holl

broses hunan arfarnu yn sicrhau fod yr ysgol yn cynnal safonau uchel a darpariaeth o ansawdd dda, sydd yn ei dro, yn dangos fod gan yr ysgol rhagolygon rhagorol ar gyfer gwelliant pellach. Caiff hyn ei gadarnhau ymhellach gan y modd eithriadol o effeithiol y mae'r rheolwyr wedi trin uno'r ddwy ysgol. Mae'r ysgol yn ymofyn safbwyntiau rhieni/gofalwyr, disgyblion a'r gymuned yn rheolaidd. Mae cymunedau dysgu proffesiynol cadarn yn yr ysgol a chyswllt da gydag ysgolion eraill yn yr awdurdod a 'theulu'r' ysgol. Mae'r rhwydweithiau hyn o arfer proffesiynol yn gwneud cyfraniad da at ddarpariaeth gyffredinol yr ysgol.

**Gweithio mewn partneriaeth: Da**

Mae gan yr ysgol bartneriaethau strategol effeithiol gyda rhieni, llywodraethwyr, yr awdurdod lleol, gwasanaethau cymdeithasol ac ysgolion lleol. Mae'r rhain yn gwneud cyfraniad cadarnhaol tuag at les a safonau addysgiadol y disgyblion. Mae'r ysgol yn cyfathrebu'n dda gyda'r rhieni. Ceir cylchlythyron rheolaidd ynghyd â gwefan deniadol i hysbysu rhieni am weithgareddau'r ysgol. Mae'r cydweithrediad gydag ysgolion lleol yn cael ei ymestyn i rannu syniadau'n well a datblygu agweddau o'r cwricwlwm. Mae'r trefniadau pontio ar gyfer y disgyblion yn effeithiol iawn. Mae proses cymedroli effeithlon yn cynnwys staff o'r clwstwr o ysgolion, yr ysgol uwchradd a'r awdurdod lleol. Mae'r eglwys leol hefyd yn cynorthwyo disgyblion wrth iddynt drosglwyddo ac yn eu galluogi i baratoi'n dda ar gyfer y cyfnod nesaf. Mae gan yr ysgol gysylltiadau da gydag amrediad o gyflogwyr lleol. Mae ymweliadau gan ddiwydiannau lleol yn cynorthwyo gyda meysydd o'r cwricwlwm megis cynaladwyedd, dylunio, marchnata a medrau menter. Caiff asiantaethau allanol eu defnyddio'n effeithiol i ddarparu cefnogaeth wedi ei dargedu ar gyfer disgyblion sydd ag anghenion dysgu ychwanegol.

**Rheoli adnoddau: Rhagorol**

Mae'r ysgol yn rheoli ei hadnoddau yn eithriadol o dda er mwyn cefnogi'r amgylchedd ddysgu. Gwneir defnydd da iawn ac effeithiol o'r holl staff i ymdrin â chwricwlwm yr ysgol. Diwellir yr holl ofynion statudol. Mae gweithdrefnau cadarn yn sicrhau caiff adnoddau eu dyrannu i ddiwallu’r blaenoriaethau dynodedig. Caiff gwariant ei gynllunio a'i fonitro'n dda iawn. Gwneir defnydd da o amser cynllunio, paratoi ac asesu i ddarparu amrywiaeth o brofiadau dysgu i'r disgyblion ac i'r staff i gynllunio'n effeithiol. Er bod y deilliannau i'r disgyblion a'r ddarpariaeth i'll dau yn dda, mae'r ysgol yn darparu gwerth da iawn am arian am fod ei hariannu yn isel iawn ac mae'r hyn mae'n derbyn yn cael ei ddefnyddio'n rhagorol.

## Atodiad 1

### Adroddiad boddhad randdeiliaid

Ymatebion i'r holiadur i rieni

Cwblhawyd 140 o holiaduron gan rieni/gofalwyr. Derbyniwyd hefyd nifer o lythyron, i gyd yn gadarnhaol. Roedd bron yr holl rieni yn fodlon â'r ysgol ac yn cytuno ei fod yn cael ei arwain a'i rheoli'n dda. Roedd y mwyafrif llethol yn cytuno fod eu plant yn mwynhau'r ysgol ac y gofelir amdanynt yn dda, yn cael eu cefnogi'n effeithiol a'u cadw'n ddiogel. Roedd bron yr holl rieni yn dweud bod eu plant yn gwneud cynnydd da a bod yr addysgu'n dda. Roeddent hefyd yn dweud fod amrediad da o weithgareddau a bod y gwaith cartref 'i'r dim'. Dywedodd y rhan fwyaf o rieni a ymatebodd fod ymddygiad yn dda. Yr unig sylwadau negyddol oedd ynglŷn â chynnal a chadw tir yr ysgol a'r ffaith nad oedd y ddwy ysgol wedi eu huno'n fewnol. Mae'r tîm yn cytuno gyda sylwadau cadarnhaol y rhieni/gofalwyr ond yn teimlo fod safle'r ysgol yn cael ei gynnal a'i gadw'n dda. Mae'n cytuno byddai coridor caeëdig rhwng y ddau adeilad yn gwella'r cyfathrebu a'r integreiddio rhwng y ddau adeilad.

### Ymateb i'r holiadur i ddysgwyr

Derbyniwyd 98 o holiaduron oddi wrth y disgyblion. Dywedodd yr holl ddisgyblion eu bod yn teimlo'n ddiogel yn yr ysgol a bod athrawon yn eu helpu i wneud cynnydd. Dywedodd bron bob un y byddent yn gwybod at bwy i droi os oeddent yn poeni neu mewn gofid. Dywedant hefyd eu bod yn gwybod sut i gadw'n iach ac i ymarfer yn rheolaidd. Dywed y rhan fwyaf eu bod yn gwneud yn dda yn yr ysgol a'u bod yn deall beth sydd angen iddynt wneud er mwyn gwella. Dywedodd lleiafrif bychan o ddisgyblion bod ymddygiad gwael adeg chwarae ac yn achlysurol y cânt eu hatal rhag gweithio yn y dosbarth. Fodd bynnag, wrth i'r arolygwyr siarad gyda'r disgyblion, cafwyd fod achosion wedi digwydd yn y gorffennol ac roedd y disgyblion dan sylw ddim yn yr ysgol bellach. Roedd y disgyblion gafodd eu cyfweld yn ystod yr arolygiad hefyd yn bendant nad oedd unrhyw fwlian.

## Atodiad 2

**Y tîm arolygu**

| | |
|---|---|
| Stephen Dennett | Arolygydd Cofnodol |
| Enir Morgan | Arolygydd Tîm |
| Audrey Evans | Arolygydd Tîm |
| Helen Adams | Arolygydd Lleyg |
| Deborah Rainer | Arolygydd Cymheiriaid |
| David Rees | Enwebai'r Ysgol |

Contractwr:

EPPC/Severn Crossing Cyf
Swît F2A, Tŷ Britannic
Ffordd Britannic
Llandarcy
Castell-nedd SA10 6JQ

**Copïau o'r adroddiad**

Mae copïau o'r adroddiad hwn ar gael gan yr ysgol ac ar wefan Estyn (www.estyn.gov.uk)

O dan Ddeddf Addysg 2005, rhaid i'r ysgol ddarparu copïau o'r adroddiad am ddim i gategorïau penodol o bobl. Gellir codi tâl nad yw'n fwy na chost atgynhyrchu ar bobl eraill sy'n gofyn am gopi o'r adroddiad. Os yw ar gael, mae'r adroddiad data i'w weld ar ein gwefan ochr yn ochr â'r adroddiad hwn.

**Grwpiau blwyddyn a chyfnodau allweddol**

Mae ysgolion yn defnyddio system gyffredin o rifo grwpiau blwyddyn o ddechrau addysg ysgol orfodol i 18 oed. Mae'r system hon yn pwysleisio pwysigrwydd parhad ac yn hwyluso cyfathrebu ymhlith ysgolion, cyrff llywodraethol, rhieni ac AALlau.

Mae'r term 'Derbyn' (D) yn cyfeirio at grŵp blwyddyn o ddisgyblion mewn ysgol gynradd sy'n cyrraedd 5 oed yn ystod y flwyddyn academaidd. Mae Blwyddyn 1 yn cyfeirio at y grŵp blwyddyn o ddisgyblion sy'n cyrraedd 6 oed yn ystod y flwyddyn academaidd, ac ati. Blwyddyn 13 yw'r grŵp o fyfyrwyr sy'n cyrraedd 18 oed yn ystod y flwyddyn academaidd.

Cyfnod cynradd:

| Blwyddyn | D | B1 | B2 | B3 | B4 | B5 | B6 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Oedrannau | 4-5 | 5-6 | 6-7 | 7-8 | 8-9 | 9-10 | 10-11 |

Cyfnod uwchradd:

| Blwyddyn | B7 | B8 | B9 | B10 | B11 | B12 | B13 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Oedrannau | 11-12 | 12-13 | 13-14 | 14-15 | 15-16 | 16-17 | 17-18 |

Mae'r pedwar cyfnod allweddol yn cwmpasu'r grwpiau blwyddyn canlynol:

| | |
|---|---|
| Cyfnod allweddol 1 | Blwyddyn 1 a Blwyddyn 2 |
| Cyfnod allweddol 2 | Blwyddyn 3 i Flwyddyn 6 |
| Cyfnod allweddol 3 | Blwyddyn 7 i Flwyddyn 9 |
| Cyfnod allweddol 4 | Blwyddyn 10 a Blwyddyn 11 |